Cynghrair Iechyd Meddwl Cymru
Wales Alliance for Mental Health

# Cynghrair Iechyd Meddwl Cymru

## Blaenoriaethau ar gyfer Llywodraeth Nesaf Cymru 2026

Mehefin 2025

# Cyflwyniad

Mae Cynghrair Iechyd Meddwl Cymru (CIMC) yn gydweithrediad rhwng elusennau iechyd meddwl a hunanladdiad a hunan-niwedio cenedlaethol Cymru. Ein haelodau yw Adferiad, Beat eating disorders, Mental Health Foundation, Mental Health Matters Wales, Mind Cymru, PAPYRUS Prevention of Young Suicide, Platfform, a Samariaid Cymru. Mae'r maniffesto hwn yn adlewyrchu meysydd o bryder cyffredin ar draws ein sefydliadau.

Fel Cynghrair, rydym yn eirioli dros leisiau pobl sy'n cael mynediad at gefnogaeth gennym ni a phawb sydd angen help gyda'u hiechyd meddwl. Credwn fod amddiffyn a gwella iechyd meddwl y genedl yn galw am ddull ar draws y llywodraeth, gan ganolbwyntio ar ymyrraeth gynnar, atal a bod yn ystyriol o drawma.

Gyda'n gilydd, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod pobl sy'n profi salwch meddwl yng Nghymru yn cael eu trin â thosturi, bod eu lleisiau'n cael eu clywed a'u bod yn derbyn y gefnogaeth briodol mor gyflym ac mor agos at adref â phosibl.

Mae gan ymrwymiadau Llywodraeth Cymru o fewn y strategaethau deng mlynedd Iechyd Meddwl a Llesiant ac Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio y pŵer i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl Cymru. Gyda mwy o gydweithredu ar draws sectorau a sgyrsiau agored i ganfod atebion i'r heriau yr ydym yn eu hwynebu ar hyn o bryd, gallwn symud yn nes at ddatblygu system sy'n seiliedig ar ganiatâd ar sail gwybodaeth, sy'n seiliedig ar gryfderau, heb rwystrau a gyda gofal a arweinir gan yr unigolyn wrth ei galon.

**Rydym yn cydnabod y datblygiadau a'r gwelliannau sylweddol a gyflawnwyd ers etholiad diwethaf y Senedd, gan gynnwys:**

- Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant sy'n cyd-fynd â'n gwerthoedd a'n dull gweithredu
- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r anghydraddoldebau o fewn iechyd meddwl
- Creu Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
- Creu Gweithrediaeth y GIG a datblygu Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl sy'n goruchwylio newid trawsnewidiol

Fodd bynnag, er gwaethaf y camau hyn, mae gormod ohonom yn parhau i gael trafferth oherwydd nad yw ein hanghenion iechyd meddwl sylfaenol yn cael eu diwallu. Mae hyn yn arwain at gynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau iechyd meddwl am oes gyfan pobl. Mae pobl wedyn yn cael eu siomi dro ar ôl tro oherwydd nad yw mynediad at gymorth priodol yn ddigon prydlon i'w helpu i wella. Os ydym yn cydnabod bod iechyd meddwl yn cael ei siapio i raddau helaeth gan ein profiadau a'n hamgylchiadau, yna mae sicrhau cymorth cynhwysfawr cyn ac ar ôl gwasanaethau iechyd meddwl yn hollbwysig i atal ac i sicrhau'r defnydd mwyaf effeithiol o'n hadnoddau cyfyngedig. Bydd hyn yn gofyn am arweinyddiaeth ymroddedig a phwrpas cyffredin ar draws pob sector ac fel Cynghrair, rydym yn barod i gydweithio ag unrhyw Lywodraeth Cymru i sicrhau'r newid hwn.

# Ein Gweledigaeth

## ar gyfer Iechyd Meddwl yng Nghymru

***Mae iechyd meddwl yn rhan annatod a hanfodol o'r hawl i iechyd"*** [1]

Rydym yn gwybod bod ein hiechyd meddwl yn cyffwrdd â phob agwedd o'n bywydau. Pan fyddwn yn profi cyfnodau o salwch meddwl, mae angen cymorth arnom sy'n adlewyrchu ein hanghenion, sy'n dosturiol, yn barchus ac yn trin nid yn unig y broblem ar y pryd ond y profiadau sylfaenol sydd wedi effeithio arnom ni.

Rydym yn dymuno gweld cymdeithas sy'n creu'r amodau i bawb ffynnu, teimlo'n ddiogel i siarad am ein hiechyd meddwl ac i gael cymorth yn gynnar fel bod llai o bobl yn cael mynediad at gymorth mwy dwys gan y system iechyd meddwl.

**Rydym eisiau system iechyd meddwl sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sydd â phwyslais ar wella ac yn seiliedig ar hawliau yng Nghymru sy'n darparu'r gofal o'r safon uchaf i bawb. Rhaid i'r system hon:**

- Ymateb i anghenion pawb, gan gymryd dull integredig, cymunedol tuag at ofal iechyd meddwl
- Bod yn benodol yn wrth-hiliol a chanolbwyntio ar hawliau sy'n golygu bod gan bawb fynediad teg at y cymorth sydd ei angen arnynt, pan fydd ei angen arnynt
- Cymryd ymagwedd oes gyfan gydag ymrwymiad i ddarparu cefnogaeth ymatebol, gyfannol sy'n cydnabod y gwahanol ddylanwadau ym mhob cam o fywyd
- Cydnabod a chynnig cymorth cyflym, cynnar i bawb, gan adeiladu rhwydwaith cydlynol i'w helpu i wella

Mae angen system arnom sy'n cydnabod bod rhai o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o amddiffyn pobl rhag salwch meddwl y tu allan i'r GIG, sy'n golygu mynd i'r afael â phenderfynyddion cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol iechyd meddwl.

Mae angen system arnom gyda gweithlu sy'n cael ei gefnogi a'i ariannu'n briodol ac sydd â'r amodau i staff weithio mewn ffordd sy'n ystyriol o drawma i weithio'n ddi-dor ar draws partneriaid statudol a'r trydydd sector i ddarparu gofal a chefnogaeth.

Yn fwy na dim, mae angen system arnom lle mae pawb, ond yn enwedig y rhai mewn rolau arweinyddiaeth, yn cydnabod yr angen i fynd y tu hwnt i ddeall bod anghydraddoldeb yn bodoli, i gymryd camau ystyrlon, pwyllog i wella mynediad a phrofiadau i bob cymuned yng Nghymru, gan ddarparu gofal o'r safon uchaf i bawb, waeth beth fo'u cefndir.

**Bydd cyflawni'r weledigaeth hon yn gofyn am arweinyddiaeth benderfynol, ffocws, dyrannu adnoddau mewn modd tryloyw ac effeithiol a newid mewn diwylliant yn y ffordd yr ydym yn cefnogi pobl â phrofiadau o salwch meddwl.**

Oni chyflawnir y weledigaeth hon, mae perygl y collir cyfle i drawsnewid y ffordd yr ydym yn diwallu anghenion pobl sy'n profi salwch meddwl trwy wrando a gweithredu ar eu barn i'w helpu i wella.

1 Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) a Swyddfa'r Uchel Gomisiynydd ar Hawliau Dynol (OHCHR) "Iechyd meddwl, hawliau dynol a deddfwriaeth: canllawiau ac ymarfer - 2023" (tud17) https://iris.who.int/bitstream/handle/10665/373126/9789240080737-eng.pdf?sequence=1 (Saesneg)

# Mae CIMC yn credu
## y dylai Llywodraeth nesaf Cymru:

1. **Flaenoriaethu Iechyd Meddwl**
   Rhoi blaenoriaeth i wella a chefnogi iechyd meddwl poblogaeth Cymru, gan gynnwys gweithredu'n bwyllog ac effeithiol ar draws y llywodraeth drwy'r Rhaglen Lywodraethu

2. **Cynyddu Buddsoddiad mewn Mesurau Ataliol**
   Cynyddu buddsoddiad mewn mesurau ataliol ac amddiffynnol yn y gyllideb gyntaf a'r un ddilynol, er mwyn lleihau'r pwysau ar y system iechyd meddwl a gwella iechyd meddwl y boblogaeth

3. **Diwygio Gwasanaethau Iechyd Meddwl**
   Sefydlu rhaglen ddiwygio uchelgeisiol, wedi'i chyllido i greu system iechyd meddwl deg a hygyrch heb rwystrau ac yn rhydd o stigma

4. **Blaenoriaethu Anghenion Babanod, Plant a Phobl Ifanc**
   Datblygu ymateb strategol clir i leihau'r angen cynyddol am wasanaeth iechyd meddwl ymhlith babanod, plant a phobl ifanc drwy flaenoriaethu cymorth i'r teulu cyfan yn y blynyddoedd cynnar a sicrhau mynediad cyflym at gymorth

5. **Mynd i'r afael ag Achosion Iechyd Meddwl Gwael**
   Sefydlu camau gweithredu clir, y gellir eu cyflawni i fynd i'r afael ag achosion cymdeithasol a strwythurol o anghydraddoldeb iechyd meddwl gyda nodau gwella pendant erbyn diwedd tymor y Senedd, gan ganolbwyntio'n arbennig ar gymunedau ffyniannus, tai fforddiadwy diogel a dileu tlodi

6. **Datblygu Fframwaith Mesur Cadarn**
   Darparu system ddata gadarn a thryloyw sy'n canolbwyntio ar ansawdd a manteision gwasanaeth a ddarperir a phrofiadau pobl o fewn blwyddyn gyntaf Llywodraeth newydd Cymru

7. **Datblygu'r Gweithlu Iechyd Meddwl**
   Cefnogi a chyllido gweithlu cryfach, unedig sy'n ystyriol o drawma ac sy'n canolbwyntio ar hawliau dynol o'r hyfforddiant cychwynnol a chymwysterau hyd at ddatblygiad proffesiynol parhaus

8. **Cryfhau Deddfwriaeth Iechyd Meddwl**
   Ymrwymo i adolygu a chryfhau'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer iechyd meddwl yn y rhaglen ddeddfwriaethol gyntaf i sicrhau ei fod wedi'i wreiddio mewn dull hygyrch sy'n seiliedig ar hawliau sy'n sicrhau'r mesurau diogelu lleiaf cyfyngol

9. **Cefnogi Cydweithredu â'r Trydydd Sector**
   Gosod cyfeiriad clir ynghylch hyrwyddo ac ymgorffori partneriaeth integredig a chydweithredol rhwng y trydydd sector a'r sectorau statudol gan sicrhau cyd-gynhyrchu wrth ddatblygu a chyflwyno darpariaeth iechyd meddwl

# Deall yr Angen am Newid




Mae'r amgylchedd iechyd meddwl yng Nghymru yn sefyllfa gymhleth ac yn un sy'n datblygu yn erbyn cefndir o ddigwyddiadau hanesyddol diwydiannol a chymdeithasol trawmatig a heriol. Er bod cynnydd cadarnhaol wedi bod, mae heriau parhaus o hyd. Mae iechyd meddwl yn cael effaith ar gymaint o agweddau, ac yn cael ei effeithio ganddynt, ac mae ein dealltwriaeth yn parhau i dyfu. Yn 2022, amcangyfrifodd Ysgol Economeg a Gwyddor Wleidyddol Llundain fod iechyd meddwl gwael yn costio tua £4.8 biliwn y flwyddyn i economi Cymru.[2] Mae deall y baich cymhleth a chostus hwn – yn economaidd ac yn ddynol – yn gam cyntaf hollbwysig tuag at ddull gwirioneddol drawsnewidiol o lesiant meddwl ledled Cymru.

Mae'r diffyg data cadarn, sydd ar gael i'r cyhoedd yng Nghymru, yn rhwystr sylweddol i'n gallu i fesur effeithiolrwydd ymyriadau a pholisïau iechyd meddwl. Er gwaethaf hyn, gallwn lunio'r darlun canlynol o iechyd meddwl yn seiliedig ar y data sydd ar gael a'r hyn rydyn ni'n ei glywed yn uniongyrchol gan bobl.

Mae stigma iechyd meddwl a gwahaniaethu yn parhau i fod yn fater o bwys. Er ein bod wedi gweld cyfnod o welliant yn agweddau'r cyhoedd tuag at iechyd meddwl, oherwydd mwy o ymwybyddiaeth ac ymgyrchoedd fel Amser i Newid Cymru, mae arolwg diweddaraf Agweddau tuag at Salwch Meddwl Cymru 2024 yn dangos dirywiad mewn empathi ac yn dangos pa mor fregus y gall yr hyn a gyflawnwyd a'r ymdrech a wnaed i'w cyflawni fod. Er gwaethaf hyn, mae'n galonogol bod parodrwydd cynyddol ymhlith gweithwyr i fod yn fwy tryloyw gyda'u cyflogwyr ynghylch eu llesiant.

Rydym hefyd yn gwybod bod iechyd meddwl y genedl yn gwaethygu a bod gwasanaethau cyhoeddus a'r trydydd sector yn cael trafferth diwallu lefel uwch o angen a galw cymhleth. Mae'r galw am wasanaethau i blant a phobl ifanc ar gynnydd gydag 1 o bob 6 o blant a phobl ifanc yng Nghymru bellach wedi cael diagnosis o gyflwr iechyd meddwl, a nifer cynyddol yn ceisio cymorth drwy wasanaeth cwnsela mewn ysgolion neu wasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc sylfaenol.

Nid yw'r galw cynyddol hwn yn syndod pan ystyriwn ddigwyddiadau y pum mlynedd diwethaf. O'r effaith a'r unigrwydd yn sgil y pandemig byd-eang, trwy ansicrwydd

2 McDaid, D. & Park, A. (2022) Yr Achos Economaidd dros Fuddsoddi mewn Atal Cyflyrau Iechyd Meddwl yn y DU, Llundain: Sefydliad Iechyd Meddwl (Saesneg)

economaidd, yr argyfwng anghydraddoldeb, ansefydlogrwydd gwleidyddol a gwrthdaro rhyngwladol, collwyd y ffactorau amddiffynnol a oedd yn sail gadarn i'n hiechyd meddwl, neu fe'u gwthiwyd i'w heithaf. Gyda thlodi, digartrefedd a gwahaniaethu ar gynnydd ynghyd â heriau ariannol parhaus, o fewn ein gwasanaethau cyhoeddus ac aelwydydd unigol, rydym wedi gweld cymunedau yn dod o dan bwysau digynsail.

Y gwir torcalonnus yw bod y nifer o fywydau a gollwyd trwy hunanladdiad yng Nghymru ddim yn gostwng, gyda'r ffigurau'n aros yn gyson bob blwyddyn. Mae hyn er gwaethaf strategaeth a buddsoddiadau dro ar ôl tro i wella mynediad at gymorth ac annog pobl i fod yn fwy o agored am brofiadau. Gwyddom fod hyn yn gysylltiedig ag amgylchiadau economaidd-gymdeithasol, fel yr amlinellir yn adroddiad y Samariaid Marw o Anghydraddoldeb.

Rydym yn aml yn clywed, os ydych chi'n ifanc, yn cael trafferth gyda thlodi, neu'n perthyn i gymuned leiafrifol, eich bod yn fwy tebygol o brofi iechyd meddwl gwael, ac yn fwy tebygol o wynebu rhwystrau sylweddol wrth gael y gefnogaeth a allai wneud gwahaniaeth. Er gwaethaf yr ymdrechion i fynd i'r afael â'r materion hyn, nid yw'n ymddangos bod y rhwystrau systematig hyn yn cael eu chwalu ac mae Cymru'n parhau i fod ymhell o gael system iechyd meddwl sy'n seiliedig ar hawliau dynol sydd wedi'i chynllunio ar gyfer pawb, waeth beth fo'u hoedran, rhyw neu ethnigrwydd.

Mae her salwch meddwl yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'r rhai sy'n ceisio cymorth yn uniongyrchol. Rydym yn clywed fwyfwy am weithlu dan straen, gyda chynnydd ymysg staff sy'n teimlo eu bod yn gorweithio a dan straen. Yn 2023, roedd tua 33% o'r holl salwch ymysg staff ar draws y GIG yng Nghymru yn gysylltiedig â straen, gorbryder, iselder neu gyflyrau seiciatrig erail[3]. Mae'n rhaid i ni flaenoriaethu llesiant y rhai sy'n darparu'r gofal.

Serch hynny, er gwaethaf y cefndir heriol hwn, **credwn yn gryf nad yw salwch meddwl yn anochel a'i bod yn aml yn bosibl atal hunanladdiad.** Mae'r atebion i wella amddiffyniad ac adferiad yn gofyn am ymateb y llywodraeth gyfan a'r gymuned, wedi'i adeiladu ar sylfaen o berthnasoedd cadarnhaol a chefnogol, o deulu i gymdeithas ehangach.




3 Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth Byrddau Iechyd/BBC Wales

# Ein Hargymhellion

Mae'r Gynghrair yn credu bod nifer o gamau allweddol i Lywodraeth nesaf Cymru eu blaenoriaethu i sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â maint yr uchelgais o fewn y strategaeth iechyd meddwl ar frys.



## 1 Rhoi blaenoriaeth i wella a chefnogi iechyd meddwl poblogaeth Cymru, gan gynnwys gweithredu'n bwyllog ac effeithiol ar draws y llywodraeth drwy'r Rhaglen Lywodraethu

- Ymrwymo i ailbenodi Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
- Adolygu'r cyllid a ddyrannwyd i wasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru i benderfynu a yw'n ddigonol ac yn cael eu cyllido'n briodol
- Sefydlu asesiad effaith iechyd meddwl ar draws y llywodraeth, wedi'i greu ar y cyd â phobl â phrofiad personol a'r trydydd sector, i sicrhau bod holl weithredoedd y llywodraeth yn ystyried yn briodol ac yn dylanwadu'n gadarnhaol ar lesiant meddwl pobl
- Gwella dealltwriaeth o dueddiadau iechyd meddwl ar lefel y boblogaeth trwy fuddsoddi mewn arolwg cenedlaethol iechyd meddwl penodol, yn debyg i'r Adult Psychiatric Morbidity Survey (APMS) yn Lloegr

## 2 Cynyddu buddsoddiad mewn mesurau ataliol ac amddiffynnol yn y gyllideb gyntaf a'r un ddilynol, er mwyn lleihau'r pwysau ar y system iechyd meddwl a gwella iechyd meddwl y boblogaeth

- Sicrhau mwy o dryloywder o ran sut mae cyllid iechyd meddwl yn cael ei ddefnyddio ar lefel bwrdd iechyd
- Neilltuo swm o arian mewn cronfa dan y teitl "Atal Iechyd Meddwl ac Arloesi", i ystyried dulliau sy'n newid, neu'n lleihau'r pwysau ar gymorth eilaidd drwy greu dulliau cymunedol
- Darparu cymorth ariannol i ddatblygu gwaith ataliol a sicrhau hefyd nad yw hyn yn effeithio ar fynediad at ofal eilaidd ac argaeledd gofal eilaidd
- Ailgyflwyno cyllid cenedlaethol, fel grantiau Adran 64, i hwyluso arloesedd, yn enwedig ar gyfer cymunedau nad oes darpariaeth ddigonol ar eu cyfer
- Adolygu'r cyllid sydd ar gael i atal hunanladdiad i sicrhau ei fod yn gallu diwallu'r angen ac yn debyg i lefelau gwariant gwledydd eraill



## 3 Sefydlu rhaglen ddiwygio uchelgeisiol, wedi’i chyllido i greu system iechyd meddwl deg a hygyrch heb rwystrau ac yn rhydd o stigma

- Adeiladu ar waith sydd eisoes yn cael ei wneud i fynd i'r afael â stigma iechyd meddwl ym mhob cymuned
- Creu cynllun gweithredu gwrth-hiliaeth ar y cyd ar gyfer y system iechyd meddwl - rhaid iddo gynnwys dulliau priodol, sy'n ymwybodol o ddiwylliant
- Bod o leiaf 80% o weithwyr iechyd meddwl proffesiynol yn derbyn hyfforddiant mewn dulliau diwylliannol priodol ac arferion gwrth-hiliol gan ddefnyddio rhaglen wedi'i thargedu
- Rhaid i bob rhaglen hyfforddi sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl (gan gynnwys nyrsio, seiciatreg, seicoleg, Therapi Iaith a Lleferydd a Therapi Galwedigaethol) gynnwys yr elfennau hyn yn eu llwybrau hyfforddi ac fel rhan o'u mesurau cymhwysedd craidd
- Ymrwymo i wella'r amgylchedd a phrofiadau gofal cleifion mewnol gan gynnwys casglu data cadarn ar y defnydd o arferion cyfyngol mewn lleoliadau cleifion mewnol a lleihau'r defnydd o'r arferion hyn flwyddyn ar ôl blwyddyn
- Cyflawni'r ymrwymiad i ofal iechyd meddwl mynediad agored, yr un diwrnod i sicrhau bod pobl yn derbyn y cymorth priodol pan fydd ei angen arnynt







## 4 Datblygu ymateb strategol clir i leihau'r angen cynyddol am wasanaeth iechyd meddwl ymhlith babanod, plant a phobl ifanc drwy flaenoriaethu eu hanghenion

- Creu cynllun penodol i wella iechyd meddwl babanod, plant a phobl ifanc, gan nodi'r camau sydd eu hangen ar draws lleoliadau i gefnogi, dylanwadu a gwrando ar brofiadau iechyd meddwl pawb
- Buddsoddi mewn mwy o ddulliau cydweithredol a thraws-sector cymunedol
- Ymrwymo i wella profiad pontio pobl ifanc o wasanaeth CAMHS Arbenigol i wasanaethau oedolion, gan sicrhau bod hyn yn seiliedig ar angen nid oedran, a bod modelau gofal wedi'u halinio i sicrhau parhad

## 5 Sefydlu camau gweithredu clir, y gellir eu cyflawni i fynd i'r afael ag achosion cymdeithasol a strwythurol o anghydraddoldeb iechyd meddwl gyda nodau gwella pendant erbyn diwedd tymor y Senedd tymor y Senedd

- Datblygu strategaeth Dileu Tlodi sy'n canolbwyntio ar y gymuned ochr yn ochr â Strategaeth Datblygu Cymunedol sy'n ystyriol o drawma, i fynd i'r afael â'r profiadau cymunedol a chymdeithasol niweidiol, a'r etifeddiaeth barhaol o ofid ac anghydraddoldeb y mae pobl ledled Cymru yn eu hwynebu
- Ymrwymo i ganlyniadau penodol a mesuradwy ar draws gwaith Llywodraeth Cymru i olrhain effaith ar iechyd meddwl y boblogaeth a sicrhau bod y cyllid sydd ar gael yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf





## 6 Darparu system ddata gadarn a thryloyw sy'n canolbwyntio ar y system, profiadau ac effaith cymorth o fewn blwyddyn gyntaf Llywodraeth newydd Cymru

- Ei gwneud yn ofynnol casglu data allweddol sy'n ymwneud â'r system iechyd meddwl a phrofiadau pobl ohoni, a'i gyhoeddi fel mater o drefn
- Darparu hyfforddiant, cymorth a systemau priodol i Fyrddau Iechyd i deimlo'n hyderus a gallu cofnodi'r data cywir
- Gwella disgwyliadau'n sylweddol a chasglu a chyhoeddi data mewn perthynas ag iechyd meddwl a nodweddion gwarchodedig

## 7 Cefnogi a chyllido gweithlu cryfach, unedig sy'n ystyriol o drawma ac sy'n canolbwyntio ar ein hawliau

- Parhau i ariannu a gweithredu Fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma
- Bod o leiaf 80% o'r gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol yn cael eu hyfforddi i fod yn ystyriol o drawma a deall effaith straen gwenwynig, Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a phenderfynyddion cymdeithasol iechyd meddwl
- Gweithredu camau diwygio deddfwriaethol i greu'r amodau sydd eu hangen ar gyfer cefnogaeth sy'n seiliedig ar hawliau, heb rwystrau

## 8 Ymrwymo i adolygu a chryfhau'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer iechyd meddwl yn y rhaglen ddeddfwriaethol gyntaf i sicrhau ei fod yn darparu'r mynediad, yr hawliau a'r mesurau diogelu a fwriadwyd

- Bod sail statudol i'r Fframwaith ar gyfer Lleihau Arferion Cyfyngol, fel rhan o ddiwygio iechyd meddwl yn ehangach trwy ymestyn Cyfraith Seni i sicrhau bod arferion cyfyngol yn cael eu lleihau ar draws yr holl sectorau cyhoeddus ond yn enwedig y system iechyd meddwl
- Cynnal adolygiad cynhwysfawr o fframwaith deddfwriaethol a chanllawiau iechyd meddwl Cymru, gan gynnwys y Bil Iechyd Meddwl newydd a'r Mesur Iechyd Meddwl (Cymru). Rhaid i'r adolygiad hwn sicrhau cydlyniant, disgwyliadau clir, ac ymateb i anghenion iechyd meddwl newydd y boblogaeth

## 9 Gosod cyfeiriad clir ynghylch hyrwyddo ac ymgorffori cydweithredu rhwng y sector statudol a'r trydydd sector gyda chynnydd o ran disgwyliadau'n gysylltiedig â chyd-gynhyrchu wrth ddatblygu a chyflwyno darpariaeth iechyd meddwl

- Strategaeth glir ac ystyriol yn nodi sut mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu gwerthfawrogi, cefnogi a chynnwys y trydydd sector gyda fwy o bartneriaeth a chydweithrediad â Gweithrediaeth y GIG
- Ymrwymo i gynnwys y sefydliadau Gwirfoddol a Chymunedol (VCS) ym mhob cam o'r fframwaith atebolrwydd a llywodraethu
- Defnyddio gwybodaeth ac arbenigedd y trydydd sector wrth ddatblygu seilwaith clir a chadarn, gan greu cyfleoedd i'r trydydd sector rannu'r data sy'n seiliedig ar dystiolaeth ym mhob grŵp lle'r ydym yn cael ein cynrychioli



**Fel Cynghrair Iechyd Meddwl Cymru, rydym yn barod i weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth nesaf Cymru. Drwy weithredu ar y blaenoriaethau brys hyn, buddsoddi mewn atal, diwygio gwasanaethau, a mynd i'r afael ag achosion sylfaenol salwch meddwl, rydym yn credu'n wirioneddol y gallwn drawsnewid bywydau ac adeiladu Cymru iachach a mwy gwydn i bawb.**

Cynghrair Iechyd Meddwl Cymru
Wales Alliance for Mental Health

**Blaenoriaethau ar gyfer Llywodraeth Nesaf Cymru 2026**
**Cynghrair Iechyd Meddwl Cymru**
Mehefin 2025